
# Anesthetig epidwral: risgiau a sgil-effeithiau



## Ynglŷn ag anesthetig epidwral

Mae epidwral yn fath o anesthetig sy'n golygu gosod tiwb plastig tenau iawn (cathetr) yn eich cefn. Mae eich anesthetydd yn defnyddio'r cathetr i roi meddyginiaethau i chi i leddfu poen neu i fferru rhan isaf eich corff. Mae'r cathetr yn aros yn eich cefn a gallwch gael mwy o feddyginiaeth lleddfu poen os oes angen.

Defnyddir anesthetig epidwral yn aml i leddfu poen yn ystod genedigaeth i wneud cyfangiadau'n llai anghyfforddus. Mae rhagor o wybodaeth am anesthetig epidwral ar gyfer genedigaeth ar gael ar wefan LabourPains: https://www.labourpains.org/translated-information/welsh-cymraeg.

Gellir defnyddio anesthetig epidwral hefyd ar gyfer llawdriniaethau a lleddfu poen ar ôl llawdriniaeth. Mae rhagor o wybodaeth am anesthetig epidwral ar gyfer llawdriniaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan:
www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

## Ynglŷn â risg ac anesthetig epidwral

Mae pawb yn wahanol ac nid yw'n bosibl gwybod pwy fydd yn profi sgil-effaith neu risg.

Gall gwybod am risgiau eich helpu i drafod opsiynau â'ch tîm gofal iechyd a gwneud penderfyniadau gwybodus am eich gofal neu'ch cynllun geni.

O ran risg mae'r niferoedd a restrir yn y daflen hon yn niferoedd cyfartalog sy'n dod o astudiaethau ymchwil. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil a ddefnyddiwyd gennym yn ein tabl 'Tystiolaeth ar gyfer anesthesia epidwral a risg'. Mae hwn ar gael ar ein gwefan www.rcoa.ac.uk/patientinfo/epidural-evidence-table.

Gall eich risgiau chi fod yn uwch neu'n is na'r niferoedd hyn. Os ydych chi'n ystyried cael epidwral ar gyfer llawdriniaeth, bydd eich anesthetydd yn trafod â chi y risgiau sydd yn fwy tebygol neu'n fwy arwyddocaol i chi.

Os ydych chi'n ystyried cael epidwral pan fyddwch chi'n rhoi genedigaeth, efallai na fyddwch chi'n cyfarfod yr anesthetydd nes eich bod chi yn esgor. Gan fod y broses o esgor yn un anodd ei rhagweld, efallai y byddwch chi'n penderfynu cael anesthetig epidwral hyd yn oed os nad oeddech chi wedi cynllunio ar gyfer hynny. P'un a yw epidwral yn rhan o'ch cynllun geni ai peidio, gall darllen y daflen hon a thaflenni eraill ar wefan LabourPains eich helpu i baratoi ar gyfer yr annisgwyl a meddwl am unrhyw gwestiynau a allai godi.

## Risg ac anesthetig epidwral wrth roi genedigaeth

Yn ôl y dystiolaeth ddiweddaraf ynghylch anesthetig epidwral:

- ***nid yw'n*** ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd angen i chi gael toriad Cesaraidd
- ***nid yw'n*** gwneud defnyddio gefeiliau neu ventouse† yn fwy tebygol
- ***nid yw'n*** gwneud eich babi'n gysglyd nac yn achosi niwed hirdymor iddo
- ***nid yw'n*** achosi poen cefn ar ôl rhoi genedigaeth.

Gall dewis epidwral i leddfu poen yn ystod esgor helpu i leihau'r siawns o gymhlethdodau difrifol, fel gwaedu trwm (gwaedlif), heintiau, clotiau gwaed neu'r angen am ofal dwys.

†Offer a ddefnyddir i helpu i arwain babi allan yn ystod genedigaeth drwy'r wain.

Gall anesthetig epidwral wneud rhoi genedigaeth yn fwy diogel:


- os ydych chi'n byw â gordewdra
- os oes gennych chi broblemau iechyd presennol
- os ydych chi'n disgwyl mwy nag un babi
- os yw eich babi yn gynamserol (yn cael ei eni'n gynnar).

## Beth sy'n digwydd os nad yw'r anesthetig epidwral yn gweithio?

Nid yw anesthetig epidwral bob amser yn gweithio cystal ag y dylai ac weithiau nid yw'n gweithio o gwbl. Mae'n cymryd tua 20 munud i'w osod a hyd at 30 munud cyn i chi deimlo'r effaith lawn. Os nad yw'n gweithio'n dda i chi, dywedwch wrth eich bydwraig neu'ch anesthetydd. Maen nhw'n gallu:


- rhoi mwy o anesthetig i chi drwy gathetr
- gofyn i chi newid ystum eich corff
- symud y cathetr i fan arall yn eich cefn (ail-leoli)
- awgrymu math gwahanol o anesthetig.

## O bob 100 o bobl a gafodd anesthetig epidwral wrth esgor



Roedd angen meddyginiaeth lleddfu poen ychwanegol ar tua 10 yn ogystal â'r epidwral

**90** heb brofi hyn









I tua 5 bu'n rhaid ail-leoli'r epidwral

**95** heb brofi hyn

## Risgiau a sgil-effeithiau sy'n gysylltiedig ag anesthetig epidwral


Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul pob 100 a gafodd epidwral.

| Beth ddigwyddodd? | | Am ba hyd?<br>A yw'n bosibl ei drin? | Faint?<br>O bob 100 o bobl (cant o bobl) |
|---|---|---|---|
|  | **Cur pen/pen tost (yn dilyn niwed i'r dwra)** | Gall hyn ddigwydd rhwng diwrnod ac wythnos ar ôl cael anesthetig epidwral.<br>Gall fod yn ysgafn a gwella o fewn ychydig ddyddiau gyda meddyginiaeth lleddfu poen dros y cownter, neu gall fod yn ddifrifol a golygu bod angen triniaeth yn yr ysbyty.<br>Mae rhagor o wybodaeth am gur pen/pen tost yn dilyn niwed i'r dwra ar gael ar ein gwefan: [www.rcoa.ac.uk/patientinfo/headache-spinal-epidural](www.rcoa.ac.uk/patientinfo/headache-spinal-epidural) | <br>0.5–1 wedi profi hyn 99–99.5 heb brofi hyn |
|  | **Twymyn** | Gall ddigwydd yn yr oriau ar ôl cael epidwral a phara am ychydig ddyddiau.<br>Efallai y bydd eich tîm gofal iechyd yn cynnig gwrthfiotigau i chi os yw'n cael ei achosi gan haint. | <br>1–10 wedi profi hyn 90–99 heb brofi hyn |


| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Pwysedd gwaed isel a oedd angen ei drin** | Gall ddigwydd ar unwaith a phara am ychydig oriau, yn fuan ar ôl yr anesthetig epidwral. Gall wneud i chi deimlo'n sâl, yn benysgafn neu'n gysglyd. Gall eich tîm gofal iechyd roi meddyginiaeth i chi i wella eich pwysedd gwaed. |  5–30 wedi profi hyn 70–95 heb brofi hyn |
|  | **Teimlo'n sâl (cyfoglyd)** | Gall ddigwydd ar unwaith a phara am ychydig oriau, yn fuan ar ôl yr anesthetig epidwral. Gall eich tîm gofal iechyd roi meddyginiaethau gwrthgyfog i chi os bydd hyn yn digwydd. |  5–20 wedi profi hyn 80–95 heb brofi hyn |
|  | **Cosi** | Gall ddigwydd ar unwaith ac fel arfer mae'n diflannu ymhen awr neu ddwy. Gall eich tîm gofal iechyd roi meddyginiaeth i chi i drin y cosi. |  Tua 30 wedi profi hyn Tua 70 heb brofi hyn |
|  | **Anhawster wrth basio wrin** | Efallai na fyddwch chi'n gallu teimlo bod angen i chi fynd i'r toiled ar ôl cael anesthetig epidwral. Weithiau mae'r tîm gofal iechyd yn argymell gosod cathetr wrinol, tiwb tenau i ddraenio'r wrin yn uniongyrchol o'ch pledren. Efallai y bydd hwn yn gael ei gadw i mewn tan y diwrnod wedyn. | |

## Mae'r risgiau a restrir isod yn brin.

Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 1,000.

| **Beth ddigwyddodd?** | | **Am ba hyd?<br>A yw'n bosibl ei drin?** | **Faint?<br>O bob 1,000 o bobl (mil o bobl)** |
|---|---|---|---|
|  | **Gwenwyndra anesthetig lleol (gormod o anesthetig yn eich llif gwaed). Gall hyn arwain at gymhlethdodau difrifol fel ffitiau neu ataliad ar y galon (pan fydd y galon yn rhoi'r gorau i guro)** | Mae'r rhain yn gymhlethdodau difrifol. Bydd eich tîm yn eich trin yn gyflym os bydd hyn yn digwydd. | Tua 1 wedi profi hyn Tua 999 heb brofi hyn |



Mae’r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 20,000.

| Beth ddigwyddodd? | | Am ba hyd?<br>A yw'n bosibl ei drin? | Faint?<br>O bob 20,000 o bobl (ugain mil o bobl) |
|---|---|---|---|
|  | **Gwendid, diffyg teimlad, pinnau bach yn eich coes, eich pen-ôl neu'ch troed (niwed i'r nerfau)** | **Niwed dros dro** (dyddiau neu wythnosau) sydd fel arfer yn gwella ar ei ben ei hun.<br>**Niwed parhaol.** | 8 wedi profi hyn 19,992 heb brofi hyn<br>Tua 1 wedi profi hyn Tua 19,999 heb brofi hyn |

Mae’r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 50,000.

| Beth ddigwyddodd? | | Am ba hyd?<br>A yw'n bosibl ei drin? | Faint?<br>Allan o bob 50,000 o bobl (pum deg mil o bobl) |
|---|---|---|---|
|  | **Symptomau meningitis yw cur pen/pen tost, twymyn a chwydu** | Gall haint meningitis ddigwydd ddyddiau neu wythnosau ar ôl yr anesthetig epidwral. Gellir defnyddio gwrthfiotigau i’w drin. | 1 wedi profi hyn 49,999 heb brofi hyn |

Mae’r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 200,000.

| Beth ddigwyddodd? | | Am ba hyd?<br>A yw'n bosibl ei drin? | Faint?<br>Allan o bob 200,000 o bobl (dau gan mil o bobl) |
|---|---|---|---|
|  | **Haint yn neu o amgylch yr asgwrn cefn** | Mae’n digwydd ddyddiau neu wythnosau ar ôl cael yr anesthetig epidwral. Mae’n cael ei drin â gwrthfiotigau neu weithiau â llawdriniaeth i ddraenio'r crawniad. | 2 wedi profi hyn 199,998 heb brofi hyn |
|  | **Clot gwaed o amgylch yr asgwrn cefn (hematoma fertebraidd)** | Mae hwn yn gymhlethdod difrifol a all olygu bod angen llawdriniaeth frys.<br>Gall achosi parlys yn y coesau os na chaiff ei drin yn gyflym. | 1–2 wedi profi hyn 199,998 heb brofi hyn |

Mae'r rhifau hyn yn dangos nifer y bobl fesul 500,000.

| Beth ddigwyddodd? | | Faint?<br>Allan o bob 500,000 o bobl (pum can mil o bobl) | |
|---|---|---|---|
|  | **Cael eich parlysu** | 2 wedi profi hyn hyn | 499,998 heb brofi |

Mae rhagor o wybodaeth am y risg o niwed i nerfau ar ôl cael anesthetig epidwral neu asgwrn cefn ar gael yma: **[www.rcoa.ac.uk/patientinfo/nd-after-spinal-epidural](www.rcoa.ac.uk/patientinfo/nd-after-spinal-epidural)**.

# rcoa.ac.uk

patientinformation@rcoa.ac.uk

**© 2025 Royal College of Anaesthetists (RCoA)**
Caniateir copïo'r wybodaeth hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion.
Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r wybodaeth hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.